

Catchphrase Ysbyty Brynaber - Week 71

Key Language

Eleni/Llynedd

Ail - as a prefix

Adjectives preceding nouns, eg hoff, hen

New Words

Cwpla	South Wales form of gorffen
Noson Guto Ffowc	Guy Fawkes Night
Tân gwyllt	fireworks
Coelcerth	bonfire
Conan	South Wales form of cwyno - to complain
Dewis	choice
Gwrthod	to refuse
Crefu	to beg or implore
Yffach	Gosh!
Gwahodd	to invite
Anodd	difficult
Manylu	to go into detail or elaborate
Diflasu	to bore
Maga	from magu - to pluck up - literally to breed
Waeth byth	worse still
di-flewyn-ar-dafod	literally without a hair on the tongue, meaning to be brutally honest
cenfigennus	jealous
tu hwnt	beyond
neu beidio	or not
hawl	a right
dychmygu	to imagine
chwysu	to sweat
mochyn	a pig
ymarferion	exercises
byd o les	a world of good
cwympto	to fall
gwres	temperature
amau	to suspect
ar flaen fy nhafod	on the tip of my tongue
tyner	gentle
gofalus	careful
bwriadu	to intend
gwir	truth
difaru	to regret
rhyfedd	funny peculiar
bron a marw eisiau	dying to
adroddiadau	reports
grisiau and staer	stairs
digalonni	to dishearten
bord	SW form of bwrdd - table
tywyll	dark
golchi	to wash
dwylo	hands
wyneb	face
brwnt	SW form of budr - dirty
esgus	excuse
geni	to be born
cas	mean

matsian	a match
tywallt	to pour
cynnau	to light or ignite
peryglus	dangerous

So what's the latest news at Brynaber?

Brian has issued a serious threat if he finds out that Agnes has lied to him and is seeing another man.

Brian - Wyt ti'n gweld dyn arall?

Agnes - Nag ydw.

Brian - Diolch byth am hynny. Dw i'n falch iawn...Achos os ydw i'n dy ddal di hefo dyn arall - dim ots pwy ydy o - dw i'n dweud wrthyti ti rwan, Agnes...A dw i'n dweud yn hollol straight...Mi wnaf i ei ladd o. Wyt ti'n clywed? Lladd.

Main Grammatical Points

To say 'last month' in Welsh we say 'fis diwethaf'. Remember we mutate 'mis' because it's an adverb of time. And 'last week' in Welsh is 'wythnos diwethaf'.

However, we don't use the same construction when we want to say 'last year'. Instead, there is one specific word - 'llynedd' which means 'last year' - 'llynedd'. Similarly we have just the one word when we want to say 'this year' - 'eleni' - 'eleni'.

Whoever said that two words were better than one?!

Jac thinks that Agnes might not love him anymore and seeks reassurance. He checks with her that she hasn't changed her mind about him and that she hasn't started to reconsider:

Dwyt ti ddim wedi dechrau ail-feddwl?

Literally this means, 'You haven't started to second-think?'

We often translate the English prefix 're-' as in reconsider or rewind, with the word 'ail', which is the ordinal number meaning 'second'.

Here are some examples:

Ail-wneud	-	to re-do
Ail-gylchu	-	to recycle
Ail-adrodd	-	to repeat

Brian has collected some old boxes and old wood to put on Rhodri's 'coelcerth' - bonfire.

Dim ond wedi dod a rhyw hen focsys a rhyw hen goed i'w rhoi ar y goelcerth ydw i.

Note that the adjective 'hen' meaning 'old' unlike most other adjectives in Welsh usually precedes the noun. The noun must then be followed by a soft mutation

Hen goed	old wood or old trees
Hen focsys	old boxes

Similar examples are:

Hen ddyn	an old man
Hen d□	an old house

Another adjective that precedes the noun is 'hoff' meaning 'favourite'.

Lle - place:

Fy hoff le my favourite place

Cân - song:

Fy hoff gân my favourite song

Catchphrase Ysbyty Brynaber: Episode 211

Guy Fawkes' Night is looming but Agnes is in no mood to celebrate. She has a heart to heart about her situation with Jenny.

Geirfa

Cwpla	South Wales form of gorffen
Noson Guto Ffowc	Guy Fawkes Night
Tân gwyllt	fireworks
Coelcerth	bonfire
Conan	South Wales form of cwyno - to complain
Dewis	choice
Gwrthod	to refuse
Crefu	to beg or implore
Yffach	Gosh!
Gwahodd	to invite
Anodd	difficult
Manylu	to go into detail or elaborate
Diflasu	to bore
Maga	from magu - to pluck up - literally to breed
Waeth byth	worse still
di-flewyn-ar-dafod	literally without a hair on the tongue, meaning to be brutally honest
cenfigennus	jealous
tu hwnt	beyond
neu beidio	or not
hawl	a right
dychmygu	to imagine

Golygfa 1

Jenny - Agnes...

Agnes - Jenny? Shw'mai? Wedi cwpla am y dydd ife?

Jenny - Do. Rwyd ti'n dechrau dy shift wyt ti?

Agnes - Ah-huh...

Yffach! Edrycha ar y tân gwyllt yna...

Jenny - O, mae'r lliwiau i gyd mor ddel - edrycha arnyn nhw.

Agnes - Pa un yw dy hoff un di?

Jenny - O, dw i ddim yn siwr. Dw i'n eu hoffi nhw i gyd. Ond y roced ydy fy hoff un, dw i'n meddwl.

Beth amdanat ti?

Agnes - Dw i'n cytuno. Y roced dw i'n meddwl. Ond, o, rwyd ti'n iawn, maen nhw i gyd yn fendigedig.

Jenny - Ydych chi am ddathlu Noson Guto Ffowc yn eich tŷ chi eleni?

Agnes - Ydyn.

Jenny - Beth? Tân gwyllt? Coelcerth? A'r cwbl?

Agnes - Y cwbl lot! Mae Rhodri wedi conan sut gymaint...

Jenny - A rwyd ti wedi cytuno...

Agnes - Doedd dim lot o ddewis gyda fi...

Jenny - Pam? Wnest ti wrthod llynedd, yn do...?

Agnes - Do, wnes i wrthod llynedd dw i'n gwbod...

Jenny - Felly - pam wyt ti wedi cytuno eleni?

Agnes - Roedd cyngerdd bach yn yr ysgol wythnos diwethaf a 'bryd hynny wnaeth Rhodri greffu ar Brian i adeiladu coelcerth gyda fe...

Jenny - Ah! Dw i'n gweld...

Agnes - Ie...Yn anffodus...

Jenny - Ac ydy'r ddau wedi adeiladu coelcerth?

Agnes - Ydyn. Mas yn yr ardd...Yffach o goelcerth fawr hefyd. Ond smo ni'n gwahodd neb draw nos Wener...Smo ni'n cael parti.

Jenny - Sori. Doeddwn i ddim yn trio gwahodd fy hun!!

Agnes - Na, na...dw i'n gwybod.

Jenny - Beth sydd?
 Agnes - Mae hyn mor anodd...
 Jenny - Beth?
 Agnes - Popeth.
 Jenny - Wyt ti eisiau dweud mwy? Wyt ti eisiau manylu?
 Agnes - Sa i moyn dy ddiflasu ti..
 Jenny - Dwyt ti ddim yn fy niflasu fi, siwr...
 Agnes - Dw i'n teimlo weithiau fy mod i'n diflasu pawb...
 Jenny - Cofia faint wnes i dy ddiflasu ti pan oeddwn i'n cael problemau hefo Arwyn...
 Agnes - O'r gorau...
 Jenny - Wel...?
 Agnes - Mae Jac am i fi ddweud y gwir 'bytu fe a fi wrth Brian.
 Jenny - Ie? A?
 Agnes - Dyna'r peth...Dw i'n cytuno gyda Jac. Dw i'n gwybod bod rhaid dweud rhywbeth...
 Jenny - Ond?
 Agnes - Wythnos diwethaf...Wythnos diwethaf...wnes i feddwl, "Reit, O.K. Mae angen guts arnat ti nawr, Agnes fach. Jyst dywed wrth Brian - dywed wrtho fe cyn i rywun arall ddweud wrtho fe - dywed wrtho fe straight. Agnes, dywed dy fod ti'n caru Jac Whelan..."
 Jenny - Ond wnest ti ddim?
 Agnes - Naddo.
 Jenny - Pam?
 Agnes - Oherwydd beth ddywedodd Brian wrthyf i.
 Jenny - Wel, beth ddywedodd o?
 Agnes - Jac. Os yw e'n clywed bod dyn arall yn fy mywyd i - dim ots pwy yw e - mae e am ei ladd e. Dyna beth ddywedodd Brian. Mae Brian am ei ladd e...
 Jenny - Ie. Ond roedd o jyst yn flin. Doedd o ddim o ddifrif...
 Agnes - Nage Jenny. Dyna'r pwynt. Wyt ti'n gweld? Dw i'n adnabod Brian. Mi oedd e o ddifrif.
 Jenny - Edrycha, Agnes - cofia beth mae Brian wedi ei wneud i ti...cofia'r ffordd mae o wedi dy drin di...
 Agnes - Dw i'n gwybod...
 Jenny - I siarad yn hollol ddi-flewyn-ar-dafod, mae Brian wedi cael babi efo dynes arall. Mae gan Brian a Wendy Keating blentyn.
 Agnes - Dw i'n gwybod...
 Jenny - Ac iddo fo droi rownd rwan a...wel...iddo fo droi rownd ac actio'n genfigennus...
 Agnes - Ie, rwyf ti'n iawn. Cenfigen yw hyn...
 Jenny - Cenfigen neu beidio. Does ganddo fo ddim hawl i sefyll yn dy ffordd di.
 Agnes - Nag oes...
 Jenny - Nag oes wir! Does ganddo fo ddim hawl i fod yn genfigennus a sefyll yn dy ffordd di...
 Agnes - Wel, sa i wedi dweud wrth Brian 'bytu Jac a fi.
 Jenny - Ond mae'n well i ti ddweud....yn tydy? Agnes - rhaid i ti ddweud.
 Agnes - Dw i'n gwybod...
 Jenny - Cyn i rywun arall ddweud wrtho fo...Dychmyga ei ymateb o wedyn.

Catchphrase Ysbyty Brynaber: Episode 212

Brian's still suspicious of Agnes and tries to prize the truth out of Jenny.

Meanwhile Agnes is giving Jac all the love and support she can and has even started helping him with his physio.

Geirfa

chwysu	to sweat
mochyn	a pig
ymarferion	exercises
byd o les	a world of good
cwmpo	to fall
gwres	temperature
amau	to suspect
ar flaen fy nhafod	on the tip of my tongue
tyner	gentle
gofalus	careful
bwriadu	to intend
gwir	truth
difaru	to regret
rhyfedd	funny peculiar
bron â marw eisïau	dying to

Golygfa 1

Agnes - Wyt ti'n chwysu..?

Jac - Dw i'n chwysu fel mochyn.

Agnes - Mae'r ymarferion yma yn gwneud byd o les i ti, cofia.

Jac - O ie? Roeddwn i'n meddwl mai rhyw fath o torture oedden nhw.

Agnes - Diod o ddŷr...?

Jac - Ie plis.

Agnes - Co ti...

Jac - Diolch...

Agnes - Sut wyt ti'n teimlo heddiw ynte?

Jac - Pwy? Fi a'r stwmp...

Agnes - Mae dy wres di'n iawn.

Jac - Mmmm...

Agnes - Gyda llaw, os yw Brian yn galw...A mae e'n siwr o wneud heddiw neu yfory...

Jac - Agnes. Dwyt ti ddim wedi dweud dim byd wrtho fo nag wyt ti...?

Agnes - Ddim eto, naddo.

Jac - I knew it...

Agnes - Sut?

Jac - Wnaeth o alw draw i fy ngweld i neithiwr...

Agnes - A dywedaist ti ddim byd... wrth Brian?

Jac - Naddo...Ond roeddwn i eisïau...Wir i ti. Roeddwn i mor agos... Roedd y geiriau ar flaen fy nhafod

...

Agnes - Diolch am beidio â dweud wrtho fe...

Jac - Wyt ti dal yn fy ngharu fi? Fi a'r stwmp?

Agnes - Ydw, Jac...Wrth gwrs fy mod i'n dy garu di...

Jac - Wyt ti'n siwr?

Agnes - Ydw...Perffaith siwr.

Jac - Dwyt ti ddim wedi dechrau ail-feddwl?

Agnes - Naddo. Ddim o gwbl...Dw i'n dy garu di yn fwy na dw i wedi caru neb erioed. Ond mae'n rhaid i ni drin Brian yn ofalus iawn...

Jac - Yeah alright. Yeah.

Agnes - Pan mae'r amser yn iawn i ddweud. Bryd hynny'n dw i am ddweud y gwir i gyd. Y gwir am 'bytu ti a fi.

Golygfa 2

Brian - Jenny...

Jenny - Brian...Sut mae pethau?

Brian - Digon prysur, w'sti..Pa bwmp wyt ti?

Jenny - Pwmp tri...

Brian - Pwmp tri. Reit. Owcidowc! Fuasech chi'n fodlon arwyddo hwn os gwelwch yn dda madam...?

Brian - Diolch...

Jenny - Croeso...

Brian - Jenny?

Jenny - Hmmm?

Brian - Yyyy...Cyn i chdi fynd...Emmm...

Jenny - Beth sydd?

Brian - Jenny, rwyd ti'n ffrind da i Agnes...A rwyd ti'n 'nabod y ddau ohonyn ni...A - wel -...Dw i wedi bod yn ff□l...

Jenny - Brian -

Brian - Na, plis. Gad i mi orffen...Sori - dw i'n difaru rwan...Dw i ar fai yn gofyn hyn...

Jenny - Yn gofyn beth?

Brian - Efallai bod hyn yn mynd i swnio'n rhyfedd...Efallai bod hyn yn mynd i swnio'n rhyfedd iawn...Ond dw i'n caru Agnes...Dw i wir yn ei charu hi...

Jenny - Rwyd ti wedi dweud hyn wrthyf fi unwaith yn barod, os wyt ti'n cofio...

Brian - Do. Do, dw i'n gwbod. Ond dim ots gen i. Achos dw i eisiau hi yn ôl. Dw i bron â marw eisiau hi yn ôl...Ond dw i'n poeni...Poeni fy mod i wedi ei cholli hi...A beth dw i eisiau ei wybod ydy: Ydy hi'n iawn i mi ei charu hi?

Jenny - Beth wyt ti'n trio'i ofyn go iawn, Brian?

Brian - Wel ydy Agnes yn gweld dyn arall?

Jenny - Pam wyt ti'n gofyn i mi? Iddi hi ddylet ti ofyn hyn. Ddim i fi...

Brian - Ie. Ie. Sori dw i ar fai. Ti'n iawn. Sori. Sori.

Catchphrase Ysbyty Brynaber: Episode 213

Brian's as persistent as ever; a huge dampener is put on Rhodri's Guy Fawkes Night; and Jac's finding it hard to come to terms with the loss of his leg.

Geirfa

adroddiadau	reports
grisiau and staer	stairs
digalonni	to dishearten
bord	SW form of bwrdd - table
tywyll	dark
golchi	to wash
dwyllo	hands
wyneb	face
brwnt	SW form of budr - dirty
esgus	excuse
geni	to be born
cas	mean
matsian	a match
tywallt	to pour
cynnau	to light or ignite
peryglus	dangerous

Golygfa 1

Jenny - ...Jac?
Jac - Mmmmm?
Jenny - Wyt ti'n iawn?
Jac - Forty winks...
Jenny - Sut wyt ti'n teimlo?
Jac - Ddim yn rhy special...
Dw i wedi teimlo'n well...Jennifer, oes gennyt ti eiliad?
Jenny - Oes...Pam?
Jac - Fwaswn i'n leicio cael gair...
Jenny - Cael gair? Am beth?
Jac - Wel am fi. Fi fel ydw i rwan...Dw i ddim yn mynd i...what's the word?...Dw i byth yn mynd i...
Jenny - I beth?
Jac - I don't think that I'm coping very well.
Jenny - Wel wrth gwrs dy fod ti...
Jac - Nag ydw.
Jenny - Dw i wedi darllen adroddiadau y physiotherapydd...
Jac - Adroddiadau! Adroddiadau! What have adroddiadau got to do with anything? Eh?
Jenny - Jac...
Jac - No really. You're talking crap! What have some bloody adroddiadau got to do with how I feel?
Jenny - It's normal for you to feel like this -
Jac - Be a parrot like the rest why don't you? -
Jenny - You've only just begun on the process of rehabilitation...There are various stages...
Jac - Stage! If I heard that word one more time!
Jenny - Mae'n ddrwg gen i, Jac...Ond dw i'n gorfod mynd i fyny grisiau i ward y plant...Gawn ni sgwrs rywbryd eto...iawn?
Jac - Yeah...O.K...Whatever...
Jenny - Paid â digalonni.
Jac - Digalonni? Dishearten?
Jenny - Ie. Paid â digalonni - iawn?

Golygfa 2

Agnes - Rhodri? ...Rhodri? Mae swper ar y ford...

Rhodri - Hei Mam. Wyt ti'n hoffi coelcerth dad a fi?
 Agnes - Neis iawn. Nawr dere. Mae hi'n oer ac yn dywyll tu fas yna... Golcha dy ddwylo a dere at y ford...
 Rhodri - O.K., mam...
 Brian - Haia.
 Agnes - O... Brian...Beth wyt ti'n ei wneud yma...?
 Brian - Dim ond wedi dod â rhyw hen focsys a rhyw hen goed i'w rhoi ar y goelcerth ydw i...
 Rhodri - O, bril, dad...!
 Agnes - Ddim nawr, Rhodri! Cer lan i'r bathrwm yna i olchi dy ddwylo...
 Rhodri - O, mam...!
 Agnes - Sa i eisiau clywed, 'O! Mam!' Dw i moyn i ti fynd lan y staer yna i'r bathrwm a golchi dy ddwylo - a dy wyneb - edrycha pwy mor frwnt wyt ti, fachgen...!
 Brian - Gwna fel mae dy fam yn ei ddweud, Rhodri - ac ar ôl swper fedran roi'r bocsys a'r coed ar y goelcerth oreit...Jyst chdi a fi. Iawn?
 Rhodri - Ie grêt.
 Brian - 'Na fo. Cer rwan.
 Agnes - Ar beth wyt ti'n edrych?
 Brian - Chdi.
 Agnes - Esgus yw dod â bocsys a choed draw 'ma...
 Brian - Nage.
 Agnes - Wyt ti'n meddwl taw ddoe ges i fy ngeni?
 Brian - Pam wyt ti'n bod mor gas?
 Brian - Dw i wedi bod yn ffôl. I feddwl ei bod hi'n bosibl i gael rhywbeth gwell na hyn...Y tŷ yma...Y plant yma...Chdi...Ni fel teulu...
 Agnes - Beth sydd?
 Brian - Beth sydd? Edrycha! Mae rhywun wedi rhoi matsian i'r goelcerth...!
 Agnes - ...Bydd yn ofalus, Brian! Cofia beth ddigwyddodd ddwy flynedd yn ôl!
 Brian - Mae rhyw ddiawl drwg wedi tywallt petrol arni!
 Rhodri - O na! Pwy sydd wedi cynnau'r goelcerth? Pwy sydd wedi ei chynnau hi?
 Brian - Rhodri, paid - mae'n beryglus. Rhodri mae hi'n rhy hwyr!
 Rhodri - Gollwng fi, gollwng fi, gollwng fi!
 Agnes - Na, Rhodri! Paid! Mae hi'n rhy hwyr!
 Brian - Rhodri!

Synopsis

The reality of Jac's situation has started to sink in. He's starting to suffer from depression and seeks reassurance from Agnes that she still loves him. She's of course still madly in love with him, but can't bring herself to tell Brian the truth.

The night before Guy Fawkes Night goes off with a real bang - it seems that someone's sabotaged Rhodri's bonfire.

Test yourself

1. 'Dw i am ei ladd o' means:
 - a) I've killed him
 - b) I've just killed him
 - c) **I'm going to kill him**
2. Noson Guto Ffowc is celebrated on:
 - a) 5 Rhagfyr
 - b) 5 Hydref
 - c) **5 Tachwedd**
3. You must mutate after the preposition 'cyn' meaning 'before':
 - a) Always
 - b) **Never**
 - c) Sometimes
4. If you were depressed in Welsh, you'd describe yourself as:
 - a) digon
 - b) **digalon**
 - c) di-glem
5. 'Ail-drefnu' in Welsh means:
 - a) **to rearrange**
 - b) to go on secondment
 - c) to deputise
6. When adjectives like 'hoff' or 'hen' precede the noun, they must be followed by:
 - a) **a soft mutation**
 - b) an aspirate mutation
 - c) a nasal mutation